# PORTHI TAIR MIL "Y GENHINEN"

Ymchwil
MALDWYN THOMAS

'EIFIONYDD' oedd piau'r *Geninen* a'r golygydd o'r dechrau yn Ionawr 1883 hyd y diwedd. D.W. Davies, Caernarfon, gŵr o bwys a fu'n argraffu'r *Genedl Gymreig* am gyfnod, oedd yr argraffydd hyd ddiwedd 1889 pan drosglwyddwyd y gwaith i swyddfa W. Gwenlyn Evans yn y dref.

Bu Gwenlyn Evans yn aelod o staff argraffu swyddfeydd *Y Genedl* a'r *Gwalia* yng Nghaernarfon yn eu tro - un yn bapur y Rhyddfrydwyr brwd a'r llall yn bapur y Toriaid pybyr ond ar ôl y profiadau politicaidd fe aeth ati i sefydlu ei fusnes argraffu annibynnol.

Fe fentrodd ac fe lwyddodd, ac am flynyddoedd maith - hyd chwe degau'r ganrif hon, - yr oedd enw gwasg Gwenlyn Evans yn enw o bwys ymhlith argraffwyr y dref.

Disgrifiodd y golygydd ei *Geninen* fel "Cylchgrawn chwarterol Cenedlaethol", cylchgrawn llenyddol na fyddai'n trafod 'unrhyw bynciau dadleuol mewn crefydd na gwleidyddiaeth', cylchgrawn a oedd am ddyrchafu 'Cymru, Cymro a Chymraeg' ar lwyfan y celfyddydau - ac yno'n unig.

Dyn felly oedd 'Eifionydd', ac felly y bu fel golygydd hefyd - hyd yn oed pan fu am ychydig, ar droad y ganrif, yng nghadair wleidyddol *Y Genedl*.

* * *

YR OEDD *Y Genedl* yn llwyddo, ac yn 1887, yn ôl y ffeil, fe ychwanegodd 'Eifionydd' rifyn newydd at y pedwar rhifyn arferol, sef 'Argraphiad Arbenig ... y Cyntaf o Fawrth', dyma 'Geninen Gwyl Dewi'

Ac yna, yn ôl y ffeil, yn 1890 fe gyhoeddwyd 'Y Geninen Eisteddfodol' am y tro cyntaf, a hynny mae'n debyg fel rhan o'r drefn newydd yn swyddfa Gwenlyn Evans. Erbyn y nawdegau cynnar yr oedd patrymau cyhoeddiad y cylchgrawn yn bur sefydlog.

Cylchrediad *Y Geninen* 1890-94, a chostau'r swyddfa am yr un cyfnod.

**Cylchrediad 1890**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | 3,200 |
| Gwyl Ddewi: | 2,200 |
| Ebrill: | 3,200 |
| Gorffennaf: | 3,100 |
| Eisteddfodol: | 1,200 |
| Hydref: | 3,040 |

Costau argraffu (a) a dosbarthu (d) 1890-94.

Roedd costau dosbarthu'n cynnwys nifer o fanion megis gosod pamffledi hysbysebion yn y cylchgrawn, a.y.y.b.

**Costau 1890**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | £38.3.0 (a) |
| | £11.4.9 (d) |
| Gwyl Ddewi: | £51.1.1½ |
| (costau cyfansawdd yn unig) | |
| Ebrill: | £48.12.10½ |
| (costau cyfansawdd yn unig) | |
| Gorffennaf: | £34.0.0 (a) |
| | £11.8.0½ (d) |
| Eisteddfodol: | £20.9.0 (a) |
| | £7.9.9 (d) |
| Hydref: | £40.17.10 (a) |
| | £12.1.5 (d) |

**Cylchrediad 1891**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | 3,500 |
| Gwyl Ddewi: | 3,500 |
| Ebrill: | 3,550 |
| Gorffennaf: | 3,550 |
| Eisteddfodol: | 1,500 |
| Hydref: | 3,500 |

**Costau 1891**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | £42.13.6 (a) |
| | £12.10.6 (d) |
| Gwyl Ddewi: | £40.14.9 (a) |
| | £ 7. 3.5 (d) |
| Ebrill: | 40.13.0 (a) |
| | £13.10.6 (d) |
| Gorffennaf: | £40.0.0 (a) |
| | £11.7.2 (d) |
| Eisteddfodol: | £23.0.0 (a) |
| | £5.10.1 (d) |
| Hydref: | £43.3.6 (a) |
| | £11.11.4½ (d) |

**Cylchrediad 1892**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | 3,500 |
| Gwyl Ddewi: | 2,300 |
| Ebrill: | 3,350 |
| Gorffennaf: | 3,200 |
| Eisteddfodol: | 1,600 |
| Hydref: | 3,200 |

**Costau 1892**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | £40.0.0 (a) |
| | £14.18.3½ (d) |
| Gwyl Ddewi: | £38.0.0 (a) |
| | £14.0.3 (d) |
| Gorffennaf: | £37.0.0 (a) |
| | £12.0.4½ (d) |
| Eisteddfodol: | £25.0.0 (a) |
| | £7.7.1 (d) |
| Hydref: | £46.18.6 (a) |
| | £14.15.6 (d) |

**Cylchrediad 1893**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | 3,200 |
| Gwyl Ddewi: | 3,200?/2,200? |
| Ebrill: | 3,200?/3,150? |
| Gorffennaf: | 3,200?/3,150? |
| Eisteddfodol: | 1,600 |
| Hydref: | 3,200?/3,150? |

(Roedd dau gofnod am ambell rifyn)

**Costau 1893**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | £39.0.0 (a) |
| | £16.4.6 (d) |
| Gwyl Ddewi: | £38.0.0 (a) |
| | £8.6.9 (d) |
| Ebrill: | £39.0.0 (a) |
| | £14.9.0½ (d) |
| Gorffennaf: | £39.0.0 (a) |
| | £13.3.3 (d) |
| Eisteddfodol: | £25.0.0 (a) |
| | £7.5.5½ (d) |
| Hydref: | £46.17.0 (a) |
| | £15.6.10½ (d) |

**Cylchrediad 1894**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | 3,100 |
| Gwyl Ddewi: | 2,200 |
| Ebrill: | 3,100 |
| Gorffennaf: | 3,050 |
| Eisteddfodol: | 1,600 |
| Hydref: | 3,000 |

**Costau 1894**

| | |
|---|---|
| Ionawr: | £52.17.9 |
| Gwyl Ddewi: | £50.3.7½ |
| Ebrill: | £52.7.9 |
| Gorffennaf: | £50.10.5½ |
| Eisteddfodol: | £33.17.10½ |
| Hydref: | £39.10.0 (a) |
| | £12.6.5½ (d) |

(rhif cyfansawdd yn unig ar gael am y rhan fwyaf o'r rhifynnau)

Ni ellir dyfarnu am gylchrediad y cylchgrawn wrth edrych ar y costau am fod niferoedd tudalennau'r *Geninen* yn amrywio o rifyn i rifyn, ac amrywiaeth hefyd yn y gwahanol orchwylion a oedd ynglŷn ag argraffu'r cylchgrawn o fis i fis.

Serch hynny fe ymddengys bod y costau ar gyfer rhifyn Gwyl Ddewi 1893 yn debycach o fod yn bris y swyddfa am "gynhyrchu" 3,200 o gopïau yn hytrach na'r rhif is. Ond yr oedd yn werthiant anghyffredin o uchel yng nghyd-destun yr ystadegau am 1891-1894.

* * *

YR OEDD *Y Geninen* ar gael yn siopau'r gwerthwyr llyfrau a phapurau newydd ym mhob un o'r hen siroedd Cymraeg ac eithrio Maesyfed, yn ogystal ag yn ambell un o ddinasoedd a threfi Lloegr.

Roedd yna gyfrif gan 649 o werthwyr yn llyfrau cownt yr argraffydd am y flwyddyn 1890. Ac nid llyfrwerthwyr neu bobl gwerthu papurau newydd oedd yr unig asiantau lleol: yr oedd yna hefyd gyfrifon gan unigolion am un neu ddau o rifynnau. Y rhwydwaith amrywiol yma oedd gwythiennau'r *Geninen*.

**Enghreifftiau o werthiant lleol 1890-92.**

**Y GOGLEDD**

**Bethesda:**
John Jones, llyfrwerthwr, ac asiant pwysig.
1890 - 57 copi; 1891 - 78 copi; 1892 - 51 copi.

**Blaenau Ffestiniog**
R.J. Thomas, llyfrwerthwr ac un o'r asiantau mwyaf arwyddocaol yn hanes y cylchgrawn. Nid y fo oedd yr unig werthwr yn y fro hon.
1890 - 193; 1891 - 105; 1892 - 94.

**Amlwch**
D. Jones, Swyddfa'r Stamp.
1890 - 82; 1891 - 66; 1892 - 36.

**Treffynnon**
P.M. Evans, y cyhoeddwr enwog.
1890 - 30; 1891 - 29; 1892 - 23.

**Y CANOLBARTH**

**Aberangell**
R. Jones, llyfrwerthwr.
1890 - 18; 1891 - 18; 1892 - 15.

**Aberystwyth**
W. Jenkins, llyfrwerthwr.
1890 - 53; 1891 - 40; 1892 - 48.

**Defynnog**
Mrs Howell Price, Rhydyn Villa.
1890 - 32; 1891 - 29; 1892 - 20.

**Y DE**

**Brynaman**
D.W. Lewis, gwerthwr papur, inc a.y.y.b.
1890 - 88; 1891 - 108; 1892 - 64.

**Cwmtwrch**
Joseph Williams, llyfrwerthwr.
1890 - 38; 1891 - 35; 1892 - 15.

**Rhymni, Mynwy**
Miss Hannah Davies, 56 Rhes y Lawn a 6 Stryd y Cae, gwerthwr papurau newydd. Roedd saith gwerthwr arall yn dosbarthu'r **Geninen** yn y Rhymni yn ystod 1890-95.
1890 - 40; 1891 - 33; 1892 - 40.

Ym Morgannwg yr oedd y nifer mwyaf o werthwyr y cylchgrawn yn y de a Phontypridd oedd un o brif ganolfannau'r gwerthiant yn ystod y pum mlynedd o 1890. Ym Mynwy, y Rhymni oedd y brif ganolfan o ran gwerthiant, ond roedd mynd ar bethau yng nghymoedd y dwyrain hefyd.



Cynrychiolwyr a Phrif Gefnogwyr Cymreigyddion y Ton, Pentre, Gelli, ac Ystrad-Rhondda, 1910-21